



Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Cynigion ar Ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr

Crynodeb Gweithredol

CP 1644



Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Cynigion ar Ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder trwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2026



© **Hawlfraint y Goron 2026**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn Criminal.LegalAidPolicy@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6677-0

E 03627373 07/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolydd Llyfra Ei Fawrhydi

Cynnwys

Cyflwyniad	6
Cefndir	7
Cynnydd cyffredinol i ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr	8
Buddsoddiad wedi'i dargedu	9
Cynyddu'r gymhareb ffi sylfaenol pledio'n euog mewn treial o 50:100 i 65:100	10
Cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer troseddau penodol	11
Cynyddu ffioedd eirioli ar gyfer apeliadau	13
Cynyddu ffi'r Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial	14
Cynyddu'r ffi gwrandawriad traddodi dedfryd	14
Cynyddu'r ffi gwrandawriadau dethol cyn treial	15
Cyngor i bobl ifanc	16
Achosion Cost Uchel iawn	17
Opsiwn 1: Diwygio'r model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro presennol	18
Opsiwn 2: Symud i gynllun arddull Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr wedi'i addasu	18
Crynodeb Ariannol	19
Datganiad Cydraddoldeb	21
Holiadur	22

Cyflwyniad

1. Mae'r papur ymgynghori hwn yn cyflwyno cynigion a'u camau nesaf cysylltiedig ar gyfer newidiadau i Gynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod eiriolwyr cymorth cyfreithiol troseddol am eu gwaith yn Llys y Goron. Mae'r ymgynghoriad ar gyfer unrhyw un â diddordeb mewn cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr, ac yn benodol y gwaith sy'n cael ei wneud gan eiriolwyr cymorth cyfreithiol troseddol.

Cefndir

2. Yn Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog fuddsoddiad ychwanegol ar gyfer eiriolwyr cymorth cyfreithiol troseddol¹, a fyddai'n darparu hyd at £34 miliwn (gan gynnwys TAW) yn fwy y flwyddyn pan fydd wedi'i weithredu yn llawn ac mewn cyflwr cyson. Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar sut y bydd y £34 miliwn yn cael ei wario drwy'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr.
3. Mae tair elfen i'n bwriad gyda'r mesurau arfaethedig: cefnogi cynaliadwyedd y sector eiriolwyr troseddol; cefnogi amcanion diwygio ehangach y Llywodraeth ar gyfer y llysoedd troseddol a chydabod natur newidiol eiriolaeth droseddol; a helpu i sicrhau bod ffioedd yn cynrychioli'n gywir natur gymhleth, medrusrwydd a'r gwaith paratoi sydd ei angen mewn achosion troseddol.
4. Mae'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn yn seiliedig ar argymhellion arbenigwyr annibynnol (gan gynnwys Syr Brian Leveson yn fwy diweddar), ac ymgysylltiad a chydweithrediad helaeth gydag eiriolwyr amddiffyn.
5. Yn unol ag arferion arferol, byddai'r newidiadau arfaethedig i'r ffi yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i achosion newydd yn unig, o'r adeg y daeth y cyfraddau diwygiedig i rym.
6. Mae cyfran fach o'r cyllid wedi'i neilltuo i ddatrys diffyg mewn gwariant sy'n dyddio yn ôl i setliad cyllid 2022 gyda'r Bar. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn cyflwyno pecyn o fesurau carlam, gan gynnwys ymestyn cymhwyster ar gyfer ffioedd paratoi wedi'u gwastraffu i eiriolwyr troseddol drwy leihau'r trothwy ar gyfer hyd lleiaf treial o bump diwrnod i ddau ddiwrnod; ehangu cymhwyster ar gyfer y ffi baratoi ychwanegol, er mwyn iddi fod ar gael mewn achosion sy'n dod i ben gyda phle euog, yn ogystal â threialon a threialon chwâl; a chynyddu'r ffi baratoi ychwanegol o £62 i £81 (£74.40 i £97.20 gan gynnwys TAW) fesul achos. Mae'r mesurau carlam yn cael eu hysbysu drwy ymgysylltiad helaeth gyda'r sector, gan

gynnwys y Bwrdd Cyngori Cymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAAB). Maent wedi'u dylunio i adlewyrchu'n well y gwaith sy'n cael ei wneud gan eiriolwyr wrth baratoi achosion, mewn ystod ehangach o ganlyniadau, wrth gefnogi ymgysylltiad cynnar a gwaith paratoi achosion yn gynnar. O ystyried y lefel o ymgysylltiad a gynhaliwyd eisoes gyda rhanddeiliaid, nid ydym yn ymgynghori ar y mesurau carlam hyn a byddwn yn eu rhoi ar waith erbyn diwedd Awst 2026.

7. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi bod yn ystyried diwygiadau posibl i'r gydnabyddiaeth ar gyfer Achosion Cost Uchel iawn. Byddai'r diwygiadau hyn yn cael eu dylunio i sicrhau taliadau cymesur a theg ar gyfer Achosion Cost Uchel iawn, gan ddileu rhai o agweddau lleiaf effeithiol y cynllun Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys crynodeb o waith y Weinyddiaeth Gyfiawnder hyd yma ac yn gofyn rhai cwestiynau lefel uchel. Byddai unrhyw ddiwygiadau i Achosion Cost Uchel iawn yn destun ymgynghoriad dilynol llawnach a mwy manwl.
8. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am chwe wythnos a daw i ben ar 24 Awst 2026. Edrychwn ymlaen at glywed safbwyntiau'r rhai sydd â diddordeb yn y newidiadau hyn. Yna byddwn yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi ymateb y llywodraeth.

Cynnydd cyffredinol i ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr

9. Y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr yw'r cynllun a ddefnyddir gan eiriolwyr sy'n cynrychioli diffynyddion sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron ac sy'n derbyn cydnabyddiaeth am eu gwaith. Mae'r ffi yn cael ei phennu drwy ffi sylfaenol, ac elfennau dirprwyol amrywiol i sicrhau bod taliadau'n adlewyrchu gofynion amrywiol achosion unigol. Telir Ffioedd Presenoldeb Dyddiol am bob diwrnod ychwanegol o eiriolaeth yn y treial ar ôl diwrnod cyntaf y treial.
10. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cynnydd o 6% i ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr, ac eithrio ffioedd presenoldeb dyddiol.
11. Mae cymhwyso cynnydd cyffredinol yn sicrhau bod pob eiriolwr yn elwa, waeth pa gymysgedd o achosion y byddant yn ymgymryd â nhw, ac yn cefnogi cynaliadwyedd y sector. Mae hefyd yn adlewyrchu tystiolaeth bod heriau recriwtio a chadw yn parhau, yn arbennig ymhlith eiriolwyr iau a chanol-gyrfa.

Cwestiwn 1) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr o 6%, ac eithrio Ffioedd Presenoldeb Dyddiol? Nodwch ydw/na/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau pam.

Cwestiwn 2) Beth ydych chi'n ei ystyried yw effeithiau cydraddoldeb y cynnig i gynyddu ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr o 6%, ac eithrio Ffioedd Presenoldeb Dyddiol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Dylech gynnwys pa grwpiau/unigolion ac esbonio eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwyntiau.

Buddsoddiad wedi'i dargedu

12. Mae'r mesurau wedi'u targedu sy'n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6% yr ydym yn cynnig ei weithredu ar gyfer ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr. Mae'r cynigion wedi'u targedu yn cael eu hysbysu gan waith polisi manwl, ymgysylltiad â rhanddeiliaid, ac maent yn tynnu ar dystiolaeth ar lwyth gwaith a lefelau cydnabyddiaeth presennol. Maent hefyd yn alinio ag argymhellion yn Adolygiad Annibynnol Syr Brian Leveson o'r Llysoedd Troseddol (IRCC)¹.

13. Rydym yn cynnig y mesurau wedi'u targedu canlynol:

- Cynyddu'r gymhareb ffi sylfaenol pledio'n euog mewn achos llys o 50:100 i 65:100.
- Cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer troseddau penodol.
- Cynyddu ffioedd eirioli ar gyfer apeliadau.
- Cynyddu ffi'r Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial.
- Cynyddu ffi traddodi ar gyfer gwrandawriad dedfrydu.
- Cynyddu'r ffioedd ar gyfer gwrandawriadau dedfrydu treial.
- Cynyddu ffioedd ar gyfer gwrandawriadau dethol cyn treialon.
- Cyngor i bobl ifanc: rydym yn cynnig ehangu'r meini prawf ar gyfer bandiau 1.2 ac 1.3², i gynnwys achosion lle mae'r dioddefwr neu'r diffynnydd yn 17 oed.

¹ Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan 1

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/686be85d81dd8f70f5de3c1f/35.49_MOJ_Ind_Review_Criminal_Courts_v8b_FINAL_WEB.pdf. Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan 2
<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6982095e8c1e89ed1e91bbc7/independent-review-criminal-courts-overview.pdf>

² Mae'r rhain yn cyfeirio at y bandiau troseddau o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr.

Cynyddu'r gymhareb ffi sylfaenol pledio'n euog mewn treial o 50:100 i 65:100

14. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cynyddu'r gymhareb ffi sylfaenol pledio'n euog mewn treial o 50:100 i 65:100. Byddai hyn yn golygu, ar gyfer pob categori troseddau, y byddai'r ffi sylfaenol sy'n daladwy ar gyfer ple euog yn cynyddu o 50% i 65% o ffi gyfatebol y treial. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%.
15. Mae'r newid hwn yn cydnabod y gall achosion ple euog gynnwys gwaith paratoi sylweddol cyn cyflwyno'r ple. Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni, mae'r addasiad hwn yn cefnogi ystyriaeth gynharach a mwy manwl o achosion a gallai arwain at ddatrys mwy o achosion ar gam cynharach, lle y bo'n briodol, gan gyfrannu at system llysoedd mwy effeithlon.

Cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer troseddau penodol

16. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cynnydd wedi'i dargedu i ffioedd sylfaenol ar gyfer categorïau troseddau dethol, yn ogystal â'r cynnydd cyffredinol o 6% yr ydym yn ei gynnig. Mae Tabl 1 yn dangos y cynnydd canrannol i'r dosbarthiadau troseddau dethol.
17. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai'r ffioedd yn y meysydd hyn adlewyrchu'n well natur gymhleth a'r swm o waith paratoi sy'n ofynnol. Bwriedir i'r cynnydd i'r ffioedd hyn sicrhau cydnabyddiaeth fwy cymesur a chefnogi cynaliadwyedd gwaith yn y meysydd hyn.
18. Bydd cynyddu'r ffioedd Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) hefyd yn alinio gyda chenhadaeth y Llywodraeth i leihau niwed difrifol a haneru Trais yn Erbyn Menywod a Merched mewn degawd.

Tabl 1: Y cynnydd arfaethedig i'r ffioedd sylfaenol ("cryno")

Bandiau Troseddau	Disgrifiad o'r Drosedd	Cynnydd canrannol arfaethedig wedi'i dargedu (yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%)
1.3	Pob achos arall o lofruddiaeth	9%
1.4	Pob achos arall o ddynladdiad	9%
Band Troseddau 3 (3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5)	Trais Difrifol	7%
Band Troseddau 4 (4.1, 4.2, 4.3)	Troseddau Rhywiol (plant) – y diffynnydd neu'r dioddefwr yn blentyn ar adeg y drosedd	8%
Band Troseddau 5 (5.1, 5.2, 5.3)	Troseddau Rhywiol (oedolyn)	7%
Band Troseddau 8 (8.1)	Troseddau yn Erbyn Budd y Cyhoedd	8%
Band Troseddau 10 (10.1)	Troseddau Gyrru	5%
Band Troseddau 11 (11.1, 11.2)	Bwrgleriaeth a Lladrad	6%
Band Troseddau 12 (12.1, 12.2, 21.3)	Troseddau Arfau Tanio	5%

Band Troseddau 13 (13.1)	Troseddau eraill yn erbyn yr unigolyn	8%
Band Troseddau 14 (14.1)	Troseddau cam-fanteisio / masnachu pobl	8%
Band Troseddau 15 (15.1, 15.2, 15.3)	Troseddau yn Erbyn y Drefn Gyhoeddus	5%

Cynyddu ffioedd eirioli ar gyfer apeliadau

19. Rydym yn cynnig cynnydd o 10% i ffioedd eirioli ar gyfer apeliadau o'r llys ynadon ac yn y Llys Apêl. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%. Mae gan y ffioedd hyn rôl allweddol i sicrhau bod gan ddiffnyddion fynediad at gynrychiolaeth o ansawdd uchel wrth geisio herio penderfyniadau a wneir yn y lle cyntaf neu ar gyhuddiad.
20. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer apeliadau ac mae'n helpu i wneud yr achosion hyn yn fwy deniadol i eiriolwyr ymgymryd â hwy a chefnogi'r galw disgwylledig yn y dyfodol. Gallai cynyddu'r ffioedd ar gyfer apeliadau i Lys y Goron feithrin cynaliadwyedd ehangach, oherwydd mae'r gwaith hwn yn aml yn cynrychioli rhan bwysig o lwyth gwaith eiriolwyr iau.

Cynyddu ffi'r Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial

21. Rydym yn cynnig cynnydd o 25% i eirioli'r ffioedd Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%.
22. Mae gan y Gwrandawriad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial rôl bwysig o ran datrys achosion yn gynnar a chynnydd achosion. Yn aml, hwn yw'r cyfle cyntaf i gyflwyno ple ac mae'n gam allweddol ar gyfer nodi materion sy'n destun anghydfod a phennu cyfarwyddiadau. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r ffi bresennol yn adlewyrchu'n llawn y lefel o waith paratoi sydd ei angen.
23. Bwriedir i'r cynnydd i'r ffi ddarparu cydnabyddiaeth well ar gyfer y gwaith hwn a hybu gwaith paratoi cynharach ac ymgysylltiad mwy effeithiol rhwng y partion.

Cynyddu'r ffi gwrandawriad traddodi dedfryd

24. Rydym yn cynnig cynnydd o 25% i ffioedd eirioli gwrandawriadau traddodi dedfryd. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%.
25. Er bod y gwrandawriadau hyn fel arfer yn fyr, maent yn gofyn am sawl awr o waith paratoi, gan gynnwys adolygu deunyddiau achos, drafftio cyflwyniadau a chynghori cleientiaid. Rydym yn cydnabod y gallai ffi bresennol y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr ar gyfer gwrandawriadau traddodi dedfryd adlewyrchu'n well y gwaith paratoi sy'n gysylltiedig â hynny. Cynyddu'r ffioedd ar gyfer gwrandawriadau dedfrydu treial.
26. Rydym yn cynnig cynnydd o 25% i ffioedd eirioli ar gyfer gwrandawriadau dedfrydu yn dilyn treial yn Llys y Goron. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%.

27. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer dedfrydu wedi cynyddu'n sylweddol, gan gynnwys yr angen i baratoi nodiadau dedfrydu manwl ac ystyried canllawiau perthnasol.
28. Bwriedir i'r cynnydd adlewyrchu'r gofynion cynyddol hyn a chefnogi casgliad effeithlon achosion yn Llys y Goron.

Cynyddu'r ffi gwrandawiadau dethol cyn treial

29. Rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd eirioli ar gyfer gwrandawiadau dethol cyn treialon, gan gynnwys dadleuon cyfreithiol (gwrandawiadau camddefnyddio proses, gwrandawiadau sy'n gysylltiedig â datgeliad, gwrandawiadau sy'n gysylltiedig â derbyniadwyedd tystiolaeth) a gwrandawiadau eraill cyn-treial (gwrandawiadau rheolau sylfaenol, gwrandawiadau ar dynnu ple euog yn ôl, gwrandawiadau pellach rheoli achos, achosion sy'n gysylltiedig â thorri gorchymyn Llys y Goron, apeliadau wedi'u gohirio, traddodi dedfryd, gwrandawiadau torri gorchymyn, ail ddiwrnod a dyddiau dilynol cais i wrthod, a nodiadau cofnodi).
30. Mae Tabl 2 yn dangos y cynnydd canrannol arfaethedig. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%.
31. Yn aml, mae'r gwrandawiadau hyn yn mynd i'r afael â materion a all benderfynu cwrs treial. Bwriad cynyddu'r gydnabyddiaeth yw annog eiriolwyr i ymgysylltu â'r materion hyn ar gam cynharach, gan leihau oedi a gwella effeithlonrwydd cyffredinol Llys y Goron.

Tabl 2: Cynnydd arfaethedig i wrandawiadau cyn treial

Gwrandawriad cyn-treial	Cynnydd canrannol arfaethedig wedi'i dargedu (yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol o 6%)
Camddefnyddio proses	50%
Gwrandawiadau sy'n gysylltiedig â datgeliad	50%
Derbyniadwyedd tystiolaeth	50%
Gwrandawiadau rheolau sylfaenol	50%
Gwrandawiadau ar dynnu ple euog yn ôl	100%
Gwrandawriad pellach rheoli achos	25%
Achosion sy'n gysylltiedig â thorri gorchymyn Llys y Goron	10%
Apeliadau wedi'u gohirio, traddodi dedfryd a gwrandawiadau torri gorchymyn	10%
Ail ddiwrnod a dyddiau dilynol cais i wrthod	50%
Nodiadau cofnodi	10%

Cyngor i bobl ifanc

32. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig ehangu'r meini prawf ar gyfer bandiau 1.1 ac 1.2 (achosion o lofruddiaeth / dynladdiad) fel eu bod yn cynnwys achosion lle mae'r dioddefwr neu'r diffynnydd yn 17 oed.
33. Ers Rhagfyr 2024, mae £5.1 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i gyfrannu i gynllun ffi cymorth cyfreithiol newydd y llys ieuenctid.
34. Byddai ehangu'r meini prawf yn helpu i sicrhau bod eiriolaeth mewn achosion o lofruddiaeth sy'n cynnwys plant hŷn yn cael ei halinio'n briodol â lefel cymhlethdod, gwaith paratoi a'r medrusrwydd arbenigol sydd ei angen mewn achosion o'r fath. Mae hyn yn gyson hefyd â'r system cyfiawnder ieuenctid, sy'n ymwneud â phlant hyd at 18 oed.

Cwestiwn 3) Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion buddsoddi wedi'u targedu a restrwyd yn y bennod hon? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 4) Beth ydych chi'n ei ystyried yw effeithiau cydraddoldeb y cynigion wedi'u targedu ar unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Dylech gynnwys pa grwpiau/unigolion ac esbonio eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Achosion Cost Uchel lawn

35. Mae Achosion Cost Uchel lawn yn achosion y disgwylir iddynt bara mwy na 60 diwrnod mewn treial. I eiriolwyr, telir am yr achosion hyn o dan system wahanol i'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr, ac mae'n seiliedig ar y model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro.
36. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw agweddau o'r model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro bob amser yn sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu'n gywir y gwaith sydd ei angen a gall arwain at gymhlethdod ac oedi, gan gynnwys negodiadau hirfaith rhwng eiriolwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.
37. Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu dau opsiwn eang ar gyfer diwygio, gyda'r amcan o sicrhau bod cydnabyddiaeth Achosion Cost Uchel lawn yn gymesur a theg, yn adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn achosion cymhleth, yn lleihau beichiau gweinyddol, ac yn darparu mwy o eglurder a sicrwydd i eiriolwyr.

Opsiwn 1: Diwygio'r model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro presennol

38. Un opsiwn fyddai cynnal strwythur y model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro ond cyflwyno addasiadau wedi'u targedu. Byddai hyn yn ceisio mynd i'r afael ag agweddau o'r model presennol sy'n gallu creu heriau, wrth leihau'r swm o newid i eiriolwyr yr un pryd. Gallai newidiadau posibl gynnwys:
- dileu'r angen i drosi tystiolaeth electronig yn dudalennau;
 - dileu trothwyon sy'n cyfyngu taliad ar gyfer deunydd ychwanegol i'w dalu;
 - cyflwyno taliad ar gyfer ystod ehangach o weithgarwch, gan gynnwys gwrandawiadau dros dro a gwaith paratoi parhaus ar gyfer treial;
 - talu am y nifer gwirioneddol o ddyddiau treial a fynychwyd.

Opsiwn 2: Symud i gynllun arddull Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr wedi'i addasu

39. Opsiwn amgen fyddai symud i gynllun sydd wedi'i alinio'n agosach â'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr, gan alinio Achosion Cost Uchel lawn yn gysyniadol â'r ffordd y telir am y rhan fwyaf o achosion Llys y Goron. Byddai'r model hwn yn cynnwys:
- ffi sylfaenol ar gyfer gwaith paratoi a gwaith achos cynnar;
 - taliad ychwanegol ar gyfer dyddiau treial drwy ffioedd presenoldeb dyddiol;

- a'r gallu i hawlio oriau ychwanegol ar gyfer gwaith arbennig o gymhleth (gan gynnwys amser ar gyfer deunydd erlyn electronig ac amser ar gyfer tystiolaeth trydydd parti, tystiolaeth wedi'i chynhyrchu gan drydydd parti a'r amddiffyniad) wedi'i bennu ar gyfraddau fesul awr y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr.

40. Byddai'r model hwn yn dileu'r angen i negodi ffioedd rhwng eiriolwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol cyn i achos ddechrau, a darparu sicrwydd yr un pryd ar gyfer y ffi sylfaenol ar gyfer achos. Fodd bynnag, byddai'n cynrychioli diwygiad mwy sylfaenol i'r trefniadau presennol.

41. Bydd ymgynghoriad pellach yn dilyn cyn gweithredu unrhyw newidiadau.

Cwestiwn 5) A oes yna agweddau o'r model Achosion Cost Uchel lawn yr ydych chi'n credu sy'n arwain at lefelau amhriodol o gydnabyddiaeth? Nodwch oes/nac oes/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 6) Ydych chi'n cytuno y dylem newid y ffordd y darperir cydnabyddiaeth mewn Achosion Cost Uchel lawn ar hyn o bryd? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 7) O'r disgrifiadau a ddarparwyd, a fyddai'n well gennych chi weld addasiadau i'r model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro, neu symud tuag at fodel strwythur ffioedd mwy graddedig? Rhowch eich rhesymau.

Crynodeb Ariannol

42. Mae'r Asesiad Effaith sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon yn darparu datganiad ariannol am effeithiau rhagweledig gweithredu'r cynigion manwl a ddisgrifiwyd yn y penodau uchod.
43. Bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, yn ogystal â'r mesurau carlam yn cael eu gweithredu yn ystod Haf 2026, ar hyn o bryd maent yn cyfateb i gyfanswm amcangyfrif gorau o tua £34 miliwn y flwyddyn, o fewn ystod o £31 miliwn i £40 miliwn y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r ansicrwydd gyda'r amcangyfrif, oherwydd gallai newidiadau i symiau a chymysgedd achosion arwain at wariant uwch neu is na'r amcangyfrif canolog. Bydd dyraniad terfynol yn cael ei gadarnhau yn ein hymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn. Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig cyflwr cyson.

Tabl 3 – Crynodeb gwariant blynyddol cyflwr cyson, yr amcangyfrif gorau gan gynnwys rhyngweithiadau a TAW, £miliwn

Crynodeb o'r cynigion	Costau blynyddol cyflwr cyson amcangyfrifedig, yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael (£miliynau)
Cynnydd o 6% ar draws ffioedd y Cynnig Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr (ac eithrio Ffi Presenoldeb Dyddiol)	11
Cyflwyno cymhareb ffi sefydlog o 65:100 rhwng pledio'n euog mewn achos llys	7
Cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer troseddau penodol	5
Cynyddu'r ffi Gwrandawiadau Ple a Pharatoi ar gyfer Treial o 25%	1.9
Cynyddu'r ffioedd ar gyfer gwrandawiadau traddodi dedfryd Llys y Goron o 25%	1.7
Cynyddu'r ffioedd ar gyfer apeliadau o lysoedd ynadon ac apeliadau i'r Llys Apêl o 10%	0.3
Cynyddu'r ffi ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu treial o 25%	1.0
Cynnydd wedi'i dargedu ar gyfer gwrandawiadau dethol cyn treialon	1.0
Ehangu meini prawf ar gyfer bandiau 1.1 ac 1.2 i gynnwys achosion pan fydd y dioddefwr neu'r diffynnydd yn 17 oed	1.4
Mesurau carlam (cyflwynir yn haf 2026)*	3.6
Cyfanswm	34

Nid yw'r ffigurau'n cyd-fynd yn union oherwydd talgrynnu

Mae'r ffigurau yn cynnwys TAW

*Nid yw ehangu argaeledd ffioedd paratoi wedi'u gwastraffu ac ehangu a chynyddu'r ffi gwaith paratoi ychwanegol yn destun ymgynghoriad, fodd bynnag, mae'r cyfanswm a nodir yn y tabl uchod yn ymgorffori'r buddsoddiad mewn ffioedd wedi'u gwastraffu a gwaith paratoi arbennig, a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod mis Gorffennaf 2026.

Datganiad Cydraddoldeb

44. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon yn ystyried yr effeithiau cydraddoldeb tebygol ar ymarferwyr cyfreithiol sy'n darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn. Gellir categoraiddio ymarferwyr yn fras fel 'eiriolwyr', sy'n cynnwys bargyfreithwyr a chyfreithwyr eiriolwyr. Mae'r Datganiad Cydraddoldeb hefyd yn ystyried yr effeithiau cydraddoldeb ar ddiffynyddion sy'n cael eu heffeithio gan y cynigion.
45. Ar gyfer pob cynnig rydym wedi'i nodi, ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, beth yw'r effeithiau tebygol ar gydraddoldeb. Roedd ein dadansoddiad yn ystyried effeithiau ein newidiadau arfaethedig ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol mewn cysylltiad â'r cynigion penodol yr ydym yn bwriadu eu gweithredu.
46. Mae'r cwestiynau penodol ar gydraddoldeb, sydd wedi'u cynnwys yn y penodau uchod, wedi'u dylunio i wahodd adborth ar bob un o'r cynigion a'u heffeithiau yn yr ymgynghoriad hwn. Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn adolygu'r effeithiau ac yn diweddarau'r Datganiad Cydraddoldeb hwn lle bydd angen.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr o 6%, ac eithrio Ffioedd Presenoldeb Dyddiol? Nodwch ydw/na/efallai/ddim yn gwybod a rhowch resymau pam.

Cwestiwn 2) Beth ydych chi'n ei ystyried yw effeithiau cydraddoldeb y cynnig i gynyddu ffioedd y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr o 6%, ac eithrio Ffioedd Presenoldeb Dyddiol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Dylech gynnwys pa grwpiau/unigolion ac esbonio eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth sy'n cefnogi eich safbwyntiau.

Cwestiwn 3) Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion buddsoddi wedi'u targedu a restrwyd yn y bennod hon? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 4) Beth ydych chi'n ei ystyried yw effeithiau cydraddoldeb y cynigion wedi'u targedu ar unigolion â nodweddion gwarchodedig penodol? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Dylech gynnwys pa grwpiau/unigolion ac esbonio eich rhesymau. Byddem yn croesawu enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth i gefnogi eich safbwyntiau.

Cwestiwn 5) A oes yna agweddau o'r model Achosion Cost Uchel lawn yr ydych chi'n credu sy'n arwain at lefelau amhriodol o gydnabyddiaeth? Nodwch oes/nac oes/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau

Cwestiwn 6) Ydych chi'n cytuno y dylem newid y ffordd y darperir cydnabyddiaeth mewn Achosion Cost Uchel lawn ar hyn o bryd? Nodwch ydw/nac ydw/efallai/ddim yn gwybod a rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 7) O'r disgrifiadau a ddarparwyd, a fyddai'n well gennych chi weld addasiadau i'r model Cynnig Ffi Sefydlog Dros Dro, neu symud tuag at fodel strwythur ffioedd mwy graddedig? Rhowch eich rhesymau.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

E 03627373

978-1-5286-6677-0